



RHESTR ARDRETHU ANNOMESTIG 2010

Arweiniad i'n HYSBYSIAD O WRANDAWIAD

Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys pob pwynt am y Tribiwnlys Prisio. Nid oes rhaid i ni ddilyn popeth yn y canllaw hwn ac nid yw'n effeithio ar sut y defnyddiwn y cyfreithiau neu reoliadau perthnasol. Cyn i ni glywed eich apêl, bydd Clerc Rhanbarthol y Tribiwnlys yn ateb unrhyw gais rhesymol sydd gennych ynglŷn â chyngor am y weithdrefn.

BETH YW HYSBYSIAD O WRANDAWIAD?

Mae'r hysbysiad o wrandawriad yn eich hysbysu pa bryd ac yn lle bydd y Tribiwnlys Prisio (TP) yn ystyried eich apêl.

Os nad ydych yn gallu mynychu'r gwrandawriad ar y dyddiad drefnwyd ac mae gennych rheswm da dros beidio â mynychu, dylech gysylltu â swyddfa rhanbarthol y TP dim hwyrach na dau ddiwrnod gwaith cyn y dyddiad gwrandawriad a gofyn am ddyddiad arall. Pan fo gohiriad yn digwydd, gall fod gryn amser cyn y gallwn roi dyddiad newydd i chi.

Os yw unrhyw fanylion a gynhwysir yn yr hysbysiad yn anghywir cysylltwch â Swyddfa Rhanbarthol y Tribiwnlys ar unwaith.

BETH DDYLWN EI WNEUD NESAF?

Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i chi drafod eich apêl gyda'r Swyddog Prisio (SP) er mwyn ceisio ei gytuno cyn dyddiad y gwrandawriad. Rhowch wybod i'r TP gynted â phosib os ydych yn cytuno eich apêl. Gellir tynnu eich apêl yn ôl, yn ysgrifenedig, ar unrhyw adeg cyn y gwrandawriad.

PWYSIG: Os nad ydych wedi cytuno eich apêl erbyn **10 diwrnod** cyn y dyddiad gwrandawriad hysbyswyd, llenwch y ffurflen rhadabost amgaeedig a dychwelwch ar unwaith i Swyddfa Rhanbarthol y Tribiwnlys. **(O dan unrhyw amgylchiadau dylech hysbysu eich bwriad i fynychu ddim hwyrach no dau ddiwrnod gwiath cyn y gwrandawriad).**

SUT MAE PARATOI FY ACHOS AR GYFER Y GWRANDAWRIAD TRIBIWNLYS?

Os ydych yn dymuno mynychu'r gwrandawriad tribiwnlys, mae angen paratoi eich achos cyn dyddiad y gwrandawriad. Ceisiwch baratoi gymaint â phosib o dystiolaeth i gefnogi eich achos.

Caniateir i chi:

- roi dystiolaeth ar lafar ac yn ystrifenedig;
- gyflwyno unrhyw beth rydych yn credu all gynorthwyo eich apêl, megis llythyrau, lluniau neu gynlluniau; a
- dod â rhywun gyda chi, i siarad ar eich rhan neu i ymddangos fel tyst.

GWYBODAETH YNGLŶN AG APELAU RHESTR ARDRETHU

Bydd y Tribiwnlys yn disgwyl eich bod chi a'r SP wedi trafod unrhyw dystiolaeth rydych am ei chyflwyno yn y gwrandawriad, ymlaen llaw. Disgwylir hefyd eich bod wedi cytuno'r ffeithiau sylfaenol, yn cynnwys maint a chynllun eich eiddo. **Efallai bydd methiant i gyfnewid gwybodaeth cyn y gwrandawriad yn gohirio penderfyniad eich apêl.**

Cofiwch wrth baratoi eich achos, fod y gwerth ardrethol (GA) ar gyfer eiddo gofnodwyd yn restr ardrethi 2010 yn seiliedig ar ei werth rhentol ar y **1af Ebrill 2008**. Mae'r dyddiad hwn yn cael ei adnabod fel y Dyddiad Prisio Rhagflaenol (**DPR**).

Pan fo SP yn gosod gwerth ardrethol, byddant yn edrych ar y rhent (os oes unrhyw) sy'n cael ei dalu ar eich eiddo ar y DPR, a'i gymharu â rhenti ar eiddo cyffelyb, er mwyn gosod lefelau gwerth tebyg.

Er fod y SP yn prasio rhan fwyaf o eiddo drwy edrych ar rhenti, maent yn defnyddio dulliau eraill o brisio rhai eiddo.

Bydd y SP yn rhoi manylion eich asesiad ardrethu i chi, yn cynnwys y mesuriadau a'r gwerthoedd y maent wedi eu denfyddio. Byddant hefyd yn gwirio fod yr holl fanylion yn gywir. Bydd y SP yn dweud wrthyfch am renti ar unrhyw eiddo y gellid cyfeirio atynt yn y gwrandawriad, o leiaf tair wythnos cyn y gwrandawriad. Caniateir i chi edrych ar y dystiolaeth hon cyn gwrandawriad y tribiwnlys. Mae gennych yr hawl hefyd i ofyn i'r SP adael i chi edrych ar y dystiolaeth sydd ganddynt ar gyfer pedwar eiddo arall (os yw'r SP yn penderfynu defnyddio mwy no phedwar gwerthiant, gellid gofyn am yr wybodaeth hon hefyd).

GWYBODAETH YNGLŶN AG APELAU HYSBYSIAD ANNILYSRWYDD

Nodwch os gwelwch yn dda pan yn ystyried Apelau Annilysrwydd fod y tribiwnlysoedd yn cael eu hatal rhag ystyried cywirdeb y gwerth ardrethol. Gall y Tribiwnlys edrych ar y rheolau ar gyfer gwneud cynigiad yn unig.

Mae'r rheolau ar gyfer gwneud cynigion yn cael eu nodi mewn rheoliadau, sy'n arolygu'r broses ar gyfer gwneud apelau. Y rhesymau mwyaf cyffredin pam fo'r SP yn teimlo fod eich cynigiad yn annilys yw:

- **Gwneud y cynigiad yn rhy hwyr.** Er enghraifft, cafodd ei wneud wedi'r terfynau amser cyfreithiol.
- **Ni chwblhawyd y cynigiad yn gywir.** Er enghraifft, ni roddwyd rhesymau pam yr oeddech yn credu fod y gwerth ardrethol yn anghywir neu ni roddwyd gwybodaeth iawn ynglŷn â phenderfyniad Tribiwnlys Prasio neu lys uwch, roeddech yn ei ystyried yn berthnasol.
- **Nid oes gennych yr hawl i wneud y cynigiad.** Er enghraifft, nid chi ydi'r preswlydd, perchennog neu denant yr eiddo apêl.
- **Fod tribiwnlys prasio neu lys uwch wedi ystyried yr apêl yn flaenorol, ar yr un seiliau a ffeithiau.**

Os ysi'r TP yn penderfynu fod eich cynigiad yn ddilys, yna fe fydd yn ystyried materion prasio yn ddiweddarach.

OES ANGEN I MI FYNYCHU'R GWRANDWIAD?

Mae o fantais os ydych yn gallu mynychu'r gwrandawriad, fel eich bod yn gallu rhoi eglurhad ac ateb cwestiynau, pe bai angen fod bynnag fe ellir delio â'ch apêl yn y ffyrdd canlynol.

Cynrychiolaethau Ysgrifenedig ffurfiol (mewn cysyniad â Rheoliadau)

Gall y Tribiwnlys y ddelio a'ch apêl yn y modd hwn, ond dim ond os **yw'r holl bartion yn cytuno i ddefnyddio'r dull yma.**

Dim ond y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir gan yr holl bartïon y gellir ei hystyried pan fo apêl yn cael ei benderfynu drwy gynrychiolaeth ysgrifenedig. Nid yw'r partïon yn bresennol yn y gwrandawiaidau hyn.

Os ydi pawb yn cytuno, yn ysgrifenedig, byddwch yn cael eich hysbysu am y drefn.

Gall y Tribiwnlys ofyn i'r partïon am fwy o dystiolaeth. Gall hefyd benderfynu mai'r unig ffordd o ddelio â'r achos ydi drwy gynnal gwrandawiad ffurfiol.

Cyflwyniad Ysgrifenedig

Os nad ydych yn gallu mynychu'r gwrandawiad, ac eisiau i'ch achos gael ei glywed yn eich absenoldeb, a'r partïon heb gytuno i'r dull cynrychiolaeth ysgrifenedig ffurfiol, mae'n rhaid i chi ysgrifennu a rhoi manylion unrhyw bwyntiau y dymunwch iddynt gael eu hystyried ddim hwyrach na dau ddiwrnod gwaith cyn y dyddiad gwrandawiad. Bydd y partïon eraill yn dal i fynychu'r gwrandawiad.

Os ydych yn gofyn i'r Tribiwnlys ddelio â'ch achos drwy gyflwyniad ysgrifenedig, ni fyddwch yn gallu apelio i Siambr Tirwodd yr Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys.

PWY FYDD YN BRESENNOL YN Y GWRANDAWIAD?

Aelodau'r Tribiwnlys Prisio

Fel rheol bydd tri aelod yn gwrandawio eich apêl, ond fe all dau aelod wrando apêl, os ydi pawb yn cytuno. Bydd un o'r aelodau'n cadeirio'r cyfarfod. Mae aelodau'r Tribiwnlys yn bobl leol sy'n wirfoddolwyr. Er nad ynynt efallai'n gymwys yn broffesiynol, maent yn derbyn hyfforddiant ac yn brofiadol mewn gwrandawio apelau. Mae aelodau'r Tribiwnlys yn annibynnol oddi wrth y SP, sy'n rhoi gwerthoedd ardrethol ar eiddo, a hefyd y Cyngor/Awdurdod Bilio (AB) sy'n gyrru'r biliau ardreth.

Y Clerc

Mae'r Clerc yn gweithredu fel cynghorwr, ar bwyntiau o gyfraith a threfn. Mae'r Clerc yn weithiwr cyflogedig y Tribiwnlys, ac nid yw'n cymryd unrhyw ran yn y penderfyniad. Er hynny, mae'r clerch yn gyfrifol am ysgrifennu'r penderfyniad.

Cynrychiolydd y Swyddog Prisio

Byddwch fwy na thebyg wedi cyfarfod aelod o staff y Swyddfa Brisio yn barod, i drafod eich apêl.

Gall y Cyngor (AB) hefyd ddewis dod yn rhan o'r apêl.

Chi

Gallwch fynychu'r gwrandawiad tribiwnlys neu ddewis cynrychiolydd, er enghraifft, ffrind neu gynghorwr proffesiynol, i weithredu ar eich rhan. **(Dylai unrhyw un sy'n mynychu ar eich rhan gael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny.)**

Gallwch hefyd ddod â rhywun fel tyst.

Y Cyhoedd

Mae gwrandawriad Tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd. Fel rheol, yr unig bobl eraill sy'n mynychu gwrandawriad ydi'r bobl sy'n disgwyl i'w hachosion gael eu clywed.

Gallwch ofyn i'r apêl gael ei glywed yn breifat, ond mae'n rhaid dangos rhesum da dros wneud hyn.

BETH SY'N DIGWYDD YN Y GWRANDAWRIAD TRIBIWNLYS?

Mae'r gwrandawriad yn weddol anffurfiol, a bydd y Tribiwnlys yn ceisio gwneud i bawb deimlo'n gartrefol. Er hynny, bydd y Tribiwnlys yn dilyn trefn, er mwyn sicrhau fod y partion yn gallu cyflwyno eu hachosion. Bydd y Tribiwnlys yn penderfynu pwy fydd yn dechrau.

Yn ystod y gwrandawriad:

- Byddwch chi a'r SP yn cyflwyno eu hachosion;
- Gallwch ofyn cwestiynau i'r SP;
- Bydd y SP yn gallu gofyn cwestiynau i chi; a
- Gall y Tribiwnlys ofyn cwestiynau i chi a'r SP.

Gall yr aelodau ofyn i'r ddwy ochr grynhai eu hachosion, cyn ymddeol i wneud penderfyniad.

Os nad ydych yn mynychu'r gwrandawriad neu yn cael eich cynrychioli yn y gwrandawriad, fe all y tribiwnlys ddiystyru eich apêl.

A FYDD Y PENDERFYNIAD YN CAEL EI WNEUD YN HYSBYS I MI AR Y DIWRNOD?

Mae'r Tribiwnlys yn gallu rhoi ei benderfyniad ar lafar, ar ddiwedd y gwrandawriad. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn gyrru eu penderfyniadau drwy's post. Mae'n rhaid i ni, yn ôl y gyfraith, roi copi ysgrifenedig o'r rhesymau dros y penderfyniad i chi. Bydd y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i chi pa bryd y byddwch yn derbyn y penderfyniad ysgrifenedig.

Nodwch os gwelwch yn dda fod holl benderfyniadau'r Tribiwnlys gyhoeddwyd o ran apelau ardrethu annomestig yn cael eu cyhoeddi ar wefannau'r TP.

GALL Y TRIBIWNLYS DDYFARNU COSTAU?

Na. Mae'r gwasanaeth yn ddi-dâl. Dim ond costau eich hunain sy'n rhaid i chi eu talu (a chostau unrhyw un sy'n eich cynrychioli) wrth baratoi eich achos a mynychu'r gwrandawriad.

BETH OS OES GENNYF ANGHENION YCHWANEGOL?

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig ychwanegol, er enghraifft mewn perthynas â'ch golwg, clyw neu symudedd, rhowch wybod i swyddfa rhanbarthol y tribiwnlys cyn dyddiad y gwrandawriad os gwelwch yn dda – byddwn yn gwneud ein gorau i helpu. Gellir gwneud hyn ar y ffurflen ymateb y cyfeiriwyd ati ar dudalen gyntaf y daflen hon.

Gallwn wneud trefniadau ar gyfer cyfieithu, ar gais, os nad yw wedi cael ei nodi ar eich apêl yn barod. Gallwn hefyd ddarparu rhywun i gyfathrebu â chi mewn iaith arwyddion (arwyddwr).

Rydym yn ymroddedig i drin pob un yn deg. Ni fydd unrhyw un sy'n gwneud apêl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu hil, lliw, cenedligrwydd, oed, crefydd, tras ethnig, rhyw, rhywioldeb, statws priodasol neu anabledd.

YDI'N BOSIB CWYNO YNGLŶN Â'R GWASANAETH A DDARPARWYD?

Os oes gennych gŵyn ynglŷn â'r modd y cafodd eich achos ei drin gan weinyddiaeth y TP, yna:

- Yn gyntaf, dylech ysgrifennu at Clerc y Tribiwnlys, yn y cyfeiriad rhanbarthol ddangosir yn ein hysbysiadau.

Byddwch yn cael eich hysbysu o drefn llawn y Tribiwnlys yn ymateb y Clerc.

Gallwch ddefnyddio'r broses yma o gwyno yn erbyn y modd cafodd eich apêl ei ymdrin yn weinyddol gan y Tribiwnlys, yn unig. Ni allwch apelio yn erbyn penderfyniad drwy'r modd hyn. Mae apêl pellach yn erbyn y penderfyniad i Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys/Llysoedd Uwch.

RHAGOR O WYBODAETH

Mae hysbysiadau yng Nghymru yn cael eu darparu unai yn Gymraeg a/neu Saesneg, yn ddibynnol ar yr iaith ddefnyddiwyd yn y cynigiad gwreiddiol.

Mae Tribiwnlys Prisio ar gyfer Cymru yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig. Mae ein taflenni eraill yn cynnwys:

- cyngor cyffredinol ynglŷn ag apelio i'r Tribiwnlys;
- arweiniad i'n hysbysiad gydnabyddiaeth; ac
- arweiniad i'n hysbysiad o benderfyniad.

Rydym hefyd yn cynnig arweinlyfrau ynglŷn â delio ag apelau Atebolrwydd Treth Gyngor a Phrisio. Os ydych yn dymuno derbyn unrhyw o'r arweinlyfrau hyn, cysylltwch â Swyddfa Rhanbarthol y Tribiwnlys yn y cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiad wrandawriad.

Ein Cofnodion

Mae gan unrhyw un yr hawl i ymweld â Swyddfa Rhanbarthol y Tribiwnlys i edrych ar gopiâu o'r agendâu a phenderfyniadau wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe blynedd diwethaf. Agendâu yw rhestrau o apelau sydd wedi derbyn dyddiad gwrandawriad.

Mae copiâu o agendâu a phenderfyniadau y Tribiwnlys ar gyfer apelau ardrethu annomestig yn cael eu dangos ar wefan y TPC hefyd.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â Tribiwnlys Prisio ar gyfer Cymru ynghyd â chopïau o'r holl arweinlyfrau ar y gwefan ganlynol sef: www.valuation-tribunals-wales.org.uk

Y prif ddeddfwriaeth sy'n rheoli gweinyddiaeth Ardrethu Annomestig yw **Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988** ynghyd â rheoliadau ategol – yn arbennig;

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 Offeryn Statudol 2005/758 (fel y'i diwygiwyd)

RHANBARTH
DWYRAIN CYMRU

Ardaloedd: CYNGHORAU
(AWDURDODAU BILIO)

Triwbiwnlys Priso Cymru

Rhanbarth Dwyrain Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG
Ffôn: 01633 266367
Ffacs: 01633 253270
E-bost: VTWaleseast@vtw.gsi.gov.uk

CS Powys
CBS Blaenau Gwent
CBS Caerffili
CS Sir Fynwy
CT Casnewydd
CBS Torfaen

Swyddfa Priso:

Asiantaeth y Swyddfa Briso

Tŷ Rhodfa
Ffordd Tŷ Glas
Llanisien
CAERDYDD CF14 5GR
Ffôn: 03000 505505
E-bost: ratingwales@voa.gsi.gov.uk

RHANBARTH
GOGLEDD CYMRU

Ardaloedd: CYNGHORAU
(AWDURDODAU BILIO)

Tribiwnlys Priso Cymru

Rhanbarth Gogledd Cymru
Adeiliadau'r Llywodraeth,
Bloc A (L1), Sarn Mynach
CYFFORDD LLANDUDNO LL31 9RZ
Ffôn: 03000 625350
Ffacs: 03000 625368
E-bost: VTWalesnorth@vtw.gsi.gov.uk

CBS Wrecsam
CS Y Fflint
CS Ddinbych
CS Gwynedd
CS Ynys Môn
CBS Conwy

Swyddfa Priso:

Asiantaeth y Swyddfa Briso

Tŷ Rhodfa
Ffordd Tŷ Glas
Llanisien
CAERDYDD CF14 5GR
Ffôn: 03000 505505
E-bost: ratingwales@voa.gsi.gov.uk

RHANBARTH
DE CYMRU

Ardaloedd: CYNGHORAU
(AWDURDODAU BILIO)

Tribiwnlys Priso Cymru

Rhanbarth De Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG
Ffôn: 01633 255003
Ffacs: 01633 255004
E-bost: VTWalesouth@vtw.gsi.gov.uk

CBS Pen-bont ar Ogwr
CS Caerdydd
CBS Rhondda Cynon Taf
CBS Bro Morgannwg
CBS Merthyr Tudful

Swyddfa Priso:

Asiantaeth y Swyddfa Briso

Tŷ Rhodfa
Ffordd Tŷ Glas
Llanisien
CAERDYDD CF14 5GR
Ffôn: 03000 505505
E-bost: ratingwales@voa.gsi.gov.uk

RHANBARTH
GORLLEWIN CYMRU

Ardaloedd: CYNGHORAU
(AWDURDODAU BILIO)

Tribiwnlys Priso Cymru

Rhanbarth Gorllewin Cymru
Llys-y-Ddraig
Parc Busnes Penllergaer
ABERTAWE SA4 9NX
Ffôn: 03000 254530
Ffacs: 03000 254522
E-bost: VTWaleswest@vtw.gsi.gov.uk

CBS Castell-nedd-Port Talbot
Dinas a Sir Abertawe
CS Caerfyrddin (Rhan 3)
CS Caerfyrddin (Rhan 1 a 2)
CS Ceredigion
CS Sir Benfro

Swyddfa Priso:

Asiantaeth y Swyddfa Briso

Tŷ Rhodfa
Ffordd Tŷ Glas
Llanisien
CAERDYDD CF14 5GR
Ffôn: 03000 505505
E-bost: ratingwales@voa.gsi.gov.uk